ESRC Wales Doctoral Training Partnership
Partneriaeth Hyfforddiant Doethurol Cymru ESRC

**Gwobr PhD Cydweithredol Partneriaeth Hyfforddiant Doethurol ESRC i Gymru**

Mae'r Sefydliad Cydweithredol ar gyfer Ymchwil mewn Addysg, Tystiolaeth ac Effaith yn yr Ysgol Addysg a Datblygiad Dynol, Prifysgol Bangor, gyda chefnogaeth Partneriaeth Hyfforddiant Doethurol ESRC ar gyfer Cymru (DTP Cymru), yn gwahodd ceisiadau am astudiaeth PhD wedi'i hariannu, gan ddechrau ym mis Hydref 2020, i archwilio'r thema ganlynol:

- **Gwerthuso effaith arferion trawsieithu amrywiol ar ganlyniadau addysgol ac ieithyddol disgyblion.**

Ariennir yr efrydiaeth hon ar y cyd gan yr ESRC a Llywodraeth Cymru, ac mae'n cael ei goruchwylio gan **yr Athro Enlli Thomas,** enlli.thomas@bangor.ac.uk (https://www.bangor.ac.uk/education-and-human-development/staff/enlli-thomas/cy).

Mae *Cwricwlwm Cymru: 2022* yn cymeradwyo'r defnydd o ddulliau a modelau sy'n caniatáu, hyrwyddo ac annog cymysgedd o ieithoedd yn yr ystafell ddosbarth, gan feithrin dwyieithrwydd deinamig mewn disgyblion. Ond er bod trawsieithu bellach wedi ei gymeradwyo fel dull gwerthfawr mewn cyd-destunau dwyieithog/amlieithog yn rhyngwladol, ychydig iawn o astudiaethau sydd wedi ceisio gwerthuso ei effaith ar gyflawniad disgyblion yn uniongyrchol, ac nid oes unrhyw astudiaethau wedi gwerthuso'n systematig sut, pam a phryd y mae trawsieithu'n gweithio yng nghyd-destun addysg yng Nghymru. Hyd yma, mae astudiaethau sydd wedi eu cynnal wedi tueddu i fod yn ddisgrifiadol, neu i ofyn barn disgyblion ac athrawon am effeithiolrwydd y dull penodol dan sylw. O ystyried pwysigrwydd trawsieithu ar draws y cwricwlwm newydd, mae'n hanfodol ein bod yn cynnal ymchwil rhyngddisgyblaethol o ansawdd uchel, wedi'i ddylunio'n dda er mwyn deall yn well beth yw canlyniadau posib y gwahanol lefelau o ryngweithio sy'n digwydd wrth ddod a dulliau addysgol, seicoleg yr unigolyn a'r cyd-destun cymdeithasol ynghyd drwy'r math yma o ddull addysgu.

Bydd y prosiect hwn yn mabwysiadu cynllun dulliau cymysg i archwilio dwy elfen allweddol:

(i) Dull arolwg i archwilio dealltwriaeth gyfredol o'r cysyniad o drawsieithu ymhlith myfyrwyr Addysg Gychwynnol Athrawon, Athrawon Newydd Gymhwyso ac athrawon sefydledig, ac arferion cyfredol mewn ysgolion. Bydd yr agwedd hon yn cynnwys holiaduron, arsylwadau a chyfweliadau grwpiau ffocws.

(ii) Gwerthusiad o ymyriadau trawsieithu amrywiol mewn gwahanol gyd-destunau gyda mesuriadau o gyflawniad disgyblion cyn, yn ystod ac ar ôl yr ymyrraeth yn seiliedig ar ddeilliannau dysgu'r wers.

**BETH FYDD YE EFRYDIAETH YN EI GYNNWYS**

Mae Gwobrau Efrydiaeth yn cychwyn ym mis Hydref 2020 a byddant yn talu am eich ffioedd dysgu yn ogystal â grant cynhaliaeth (£ 15,009 p.a. ar hyn o bryd ar gyfer 2019/20 ar gyfer myfyrwyr amser llawn, a gaiff ei ddiweddaru bob blwyddyn); ac mae'n cynnwys mynediad at Grant Cymorth Hyfforddiant Ymchwil ychwanegol (RTSG), er y gall y gronfa hon gael ei 'chyfuno' a gofyn am geisiadau ar wahân o 2020 ymlaen. Mae cyfleoedd a buddion eraill ar gael i ddeiliaid efrydiaeth, gan gynnwys lwfans gwaith maes tramor (os yw'n berthnasol), cyfleoedd interniaeth, ymweliadau sefydliadol tramor a grantiau bach eraill.

**CYMHWYSTER**

Mae efrydiaethau ESRC yn gystadleuol iawn, a dylai fod gan ymgeiswyr gefndir academaidd rhagorol yn y gwyddorau cymdeithasol, gan feddu ar radd dosbarth 1af neu 2il ddosbarth uchaf cryf; bydd ceisiadau gan y rhai sydd hefyd â gradd Meistr mewn hyfforddiant ymchwil perthnasol (neu gefndir cyfatebol mewn hyfforddiant ymchwil) yn cael eu hystyried ar gyfer dyfarniad +3. Mae dyfarniadau llawn (ffioedd ynghyd â chyflog cynnal a chadw) yn agored i breswylwyr y DU a myfyrwyr yr UE sy'n gallu bodloni gofynion preswylio'r DU.

**1 + 3 NEU +3?**

Mae'r efrydiaeth ar gael naill ai ar sail 1 + 3 neu +3. Mae efrydiaeth 1 + 3 yn darparu cyllid am bedair blynedd (neu gyfwerth rhan-amser), gan gwblhau hyfforddiant ymchwil Meistr yn y flwyddyn 1af, ac yna cyllid ymchwil 3 blynedd ar gyfer PhD. Mae efrydiaeth +3 yn darparu cyllid ar gyfer yr astudiaeth ymchwil PhD tair blynedd yn unig (neu gyfwerth rhan-amser).

**ASESIAD**

**Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 12.00 hanner dydd ddydd Llun 3 Chwefror 2020.** Gwahoddir ymgeiswyr ar y rhestr fer i gyfweliad, fydd yn debygol o ddigwydd ddiwedd mis Chwefror/dechrau mis Mawrth 2020. Ar ôl cyfweliad, bydd rhestr fer derfynol o ymgeiswyr yn cael ei chyflwyno i Banel a gynullir gan Grŵp Rheoli DTP ESRC Cymru lle bydd penderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud mewn perthynas â dyfarniadau efrydiaeth. Yn y rhan fwyaf o achosion gall ymgeiswyr llwyddiannus ddisgwyl clywed erbyn dechrau Ebrill 2020.

**SUT I WNEUD CAIS**

Dylid cyflwyno ffurflen gais wedi'i chwblhau, a dogfennau cysylltiedig ar gyfer mynediad i astudiaeth ddoethurol ym Mhrifysgol Bangor, trwy'r Gwasanaeth Cais Uniongyrchol yn https://apps.bangor.ac.uk/applicant/ erbyn y dyddiad cau o **hanner dydd, 3 Chwefror 2020**. Ni dderbynnir ceisiadau neu geisiadau anghyflawn a dderbynnir ar ôl yr amser penodedig hwn. Ar y cais ar-lein, nodwch eich bod yn gwneud cais am ddyfarniad cydweithredol ESRC o dan yr adran 'Cyllid'. Defnyddiwch y teitl gweithredol canlynol o dan yr adran 'Teitl y prosiect': *Gwerthuso effaith amrywiol arferion trawsieithu ar ganlyniadau addysgol ac ieithyddol disgyblion*. Nodwch y dyddiad cychwyn posib fel **1 Hydref, 2020**.

**Rhaid** i'r cais gynnwys y dogfennau canlynol:

1. ***Llythyr eglurhaol***: Gallech gyfeirio'r llythyr at yr Athro Enlli Thomas. Rhaid i'r llythyr enwi'r efrydiaeth gydweithredol yr ydych yn ymgeisio amdani - *Gwerthuso effaith amrywiol arferion trawsieithu ar ganlyniadau addysgol ac ieithyddol disgyblion*. Rhaid iddo nodi'ch rhesymau a'ch cymhelliant dros wneud cais i astudio ym Mhrifysgol Bangor ac i'r Llwybr Dwyieithrwydd; eich dealltwriaeth, a'ch disgwyliadau o astudio doethuriaeth; a'ch diddordebau academaidd yn gyffredinol, ac yn enwedig sut mae'r rhain yn gysylltiedig â'r disgrifiad o'r prosiect a gyflenwir. Ni ddylai'r llythyr eglurhaol fod yn fwy na dwy dudalen. Nodwch hefyd a ydych am wneud cais ar sail +3 neu 1 + 3.
2. ***Cymwysterau Academaidd / Proffesiynol***: Mae'r astudiaeth benodol hon yn gofyn am ruglder yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nodwch, os gwelwch yn dda, eich gallu i weithio trwy gyfrwng Cymraeg a Saesneg. Lle bo hynny'n briodol, dylai hyn gynnwys prawf o Gymhwysedd Iaith Saesneg (lleiafswm o 7.0 IELTS) ac unrhyw gymwysterau Cymraeg.
3. ***Cyfeiriadau***: Mae pob cais yn gofyn am gyflwyno dau dystlythyr academaidd i gefnogi. Dylai ymgeiswyr fynd at ganolwyr eu hunain a chynnwys y tystlythyrau gyda'u cais.
4. ***Curriculum Vitae***: Ni ddylai hyn fod yn hwy na dwy dudalen.
5. ***Myfyrdodau ar bwnc yr ymchwil***: Ar gyfer efrydiaethau cydweithredol, dylech gyflwyno darn o waith myfyriol sy'n adeiladu'n uniongyrchol ar y disgrifiad amlinellol o'r prosiect a ddarparwyd. Dylai eich adlewyrchiad fod hyd at uchafswm o 3000 o eiriau, heb gynnwys y llyfryddiaeth. Awgrymwn eich bod yn defnyddio'r pum pennawd canlynol yn eich myfyrdod:
    - Eich myfyrdodau ar nodau a phwrpas yr ymchwil;
    - Trosolwg o ddarnau o'r llenyddiaeth ymchwil allweddol sy'n berthnasol i'r astudiaeth;
    - Eich syniadau ar gyfer datblygu dyluniad a dulliau'r astudiaeth;
    - Disgrifiad o ganlyniadau posibl y prosiect ar gyfer ein gwybodaeth, dealltwriaeth, polisi ac arfer (fel sy'n briodol i'r pwnc);
    - Rhestr lyfryddiaeth

**ESRC Doctoral Training Partnership for Wales Collaborative PhD award**

The Collaborative Institute for Education Research, Evidence and Impact at the School of Education and Human Development, Bangor University, supported by the ESRC Doctoral Training Partnership for Wales (Wales DTP), invites applications for a funded PhD study, commencing in October 2020, to explore the following theme:

- **Evaluating the impact of various practices of *translanguaging* on pupils' educational and linguistic outcomes.**

This studentship is jointly funded by the **ESRC** and **Welsh Government**, and is supervised by **Professor Enlli Thomas,** enlli.thomas@bangor.ac.uk (https://www.bangor.ac.uk/education-and-human-development/staff/enlli-thomas/en).

*Curriculum for Wales: 2022* endorses the application of approaches and models that allow, promote and encourage a mix of languages in the classroom, fostering a more dynamic bilingualism in pupils. Despite the endorsement of translanguaging as a valuable approach in bilingual/multilingual contexts internationally, very few studies have attempted to evaluate its impact on pupil achievement directly, and no studies have systematically evaluated how/why/when/for whom translanguaging works within education in Wales. Studies to date have tended to be descriptive, or to ask pupils' and teachers' opinions about the effectiveness of the specific dual-language approach under discussion. Given the pervasiveness of translanguaging across the new curriculum, it is essential that we conduct high quality, well-designed, interdisciplinary research in order to better understand the outcomes of various levels of interaction between pedagogy, psychology and the social context that are afforded through this approach.

This project will adopt a mixed methods approach to explore two key elements:

(i) A survey approach to explore current understanding of the concept among Initial Teacher Education (ITE) students, Newly Qualified Teachers (NQTs) and

established teachers, and current practices in schools. This aspect will involve questionnaires, observations and focus group interviews.

(ii) An evaluation of varied translanguaging interventions in various contexts with quantifiable pre-, during, and post-intervention measurements of pupil achievement based around the target outcomes of lesson aims.

**WHAT THE STUDENTSHIP WILL COVER**

Studentship Awards commence in October 2020 and will cover your tuition fees as well as a maintenance grant (currently £15,009 p.a. for 2019/20 for full-time students, updated each year); and includes access to an additional Research Training Support Grant (RTSG), though an element of this latter fund may be 'pooled' and require separate applications from 2020 onwards. There are other opportunities and benefits available to studentship holders, including an overseas fieldwork allowance (if applicable), internship opportunities, overseas institutional visits and other small grants.

**ELIGIBILITY**

ESRC studentships are highly competitive, candidates should have an excellent academic background in the social sciences, holding a $1^{st}$ or strong upper $2^{nd}$ class degree; applications from those also holding a relevant research training Masters degree (or an equivalent background in research training) will be considered for a +3 award. Full awards (fees plus maintenance stipend) are open to UK Nationals and EU students who can satisfy UK residency requirements.

**1+3 OR +3?**

The Award is available on either a 1+3 or +3 basis. A 1+3 studentship provides funding for four years (or part-time equivalent), completing a research training Masters in the 1st year, followed by 3 years research funding for a PhD. A +3 studentship provides funding for the three years PhD research study only (or part-time equivalent).

**ASSESSMENT**

**The closing deadline for applications is 12.00 noon on Monday 3 February 2020.** Short-listed applicants will be invited to interview, which are expected to take place in late February/early March 2020. After interview, a final short-list of applicants will be put forward to a Panel convened by the ESRC Wales DTP Management Group at which final decisions with regard to studentship awards will be made. In most cases successful applicants can expect to hear by early April 2020.

**HOW TO APPLY**

A **<u>completed</u>** application form, and accompanying documents for admission to doctoral study at Bangor University, should be submitted via the Direct Application Service at https://apps.bangor.ac.uk/applicant/ by the deadline of **12 noon, 3 February 2020**.

Incomplete applications or applications received after this specified time will not be accepted. On the on-line application, please indicate that you are applying for an ESRC collaborative award under the 'Finance' section. Please use the following working title under the 'Project title' section: *Evaluating the impact of various practices of translanguaging on pupils' educational and linguistic outcomes.* Please specify the potential start date as **1 October, 2020**.

The application **must** contain the following documents:

1. ***Covering letter***: Please address to Professor Enlli Thomas. The covering letter must name the collaborative studentship being applied for - *Evaluating the impact of various practices of translanguaging on pupils' educational and linguistic outcomes*. It must set out your reasons and motivation for applying to study at Bangor University, and the Bilingualism Pathway; your understanding, and expectations of doctoral study; and your academic interests generally, and particularly how these relate to the description of the project supplied. The covering letter should be no more than two pages. Please also specify whether you wish to apply on a +3 or 1+3 basis.
2. ***Academic / Professional Qualifications***: This particular study requires fluency in both Welsh and English. Please indicate your ability to work through the medium of Welsh and English. Where appropriate, this should include proof of English Language Competency (7.0 IELTS minimum) and any Welsh language qualifications.
3. ***References***: All applications require two academic references to be submitted in support. *Candidates must approach referees themselves and include the references with their application.*
4. ***Curriculum Vitae***: This should be no longer than two pages.
5. ***Reflections on the research topic***: For collaborative studentships, your reflective piece should build directly on the outline description that has been supplied. Your reflection should be up to a *maximum* of 3000 words, not including bibliographic references. We suggest that you use the following five headings in your reflection piece:
   - Your reflections on the aims and purpose of the research;
   - An overview of some key research literature relevant to the study;
   - Your ideas for developing the design and methods of the study;
   - A description of potential outcomes of the project for our understanding, knowledge, policy and practice (as appropriate to the topic);
   - Bibliographic references